

Cofion a Chyfarchion

- Anfonwn ein cofion heddiw at Peter Jones (Groes) gafodd lawdriniaeth yn Ysbyty Abergele yn ystod yr wythnos, Bronwen Williams (Cefn Berain), Beryl Jones (Nantglyn) a Selwyn Davies (Cefn Meiriadog) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a Gwyn H. Davies (Hiraethog) yn yr Inffirmari. Cyflwynwn hwy oll, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda daioni a thrugaredd.
- Estynnwn ddymuniadau gorau'r Fro i Gwion Dafydd a Sarah Johnson, ein Cynorthwywyr Gweinidogaethol, fydd yn priodi yn Llanasa ddydd Sadwrn nesaf. Gweddiwn y cânt ddiwrnod cofiadwy ac y bydd Duw yn eu bendithio'n helaeth yn eu bywyd priodasol.

beibl.net



Ar Dachwedd 1af, cyhoeddir dau Feibl fel rhan o brosiect beibl.net. Mae fersiwn llawn o'r Beibl ar gael, yn ogystal â Beibl lliw newydd i blant sy'n cynnwys 365 o storïau – pob un ohonynt gyda llun lliw llawn a thestun o beibl.net. Pris y ddau Feibl fydd £14.99 yr un, ond gellir cael gostyngiad am bob archeb fydd wedi dod i law erbyn diwedd Hydref. Felly, os am archebu copi **am £10 yr un**, gadewch i Mair wybod **erbyn Hydref 26ain**, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **CYFARFOD DIOLCHGARWCH CEFN BERAIN** nos Lun, Hydref 19eg am 7.00 gyda Mrs Nia Royles yn annerch. Bydd paned i bawb i ddilyn.
- **GŴYL DDIOLCHGARWCH LLANNEYDD** – Gwasanaeth gan blant yr ysgol bore Llun, Hydref 19fed, a phregeth gan Aneurin nos Fercher, Hydref 21ain am 7.00.
- **CYFARFOD CHWIORYDD BRO ALED** yng Nghapel Saron nos Fawrth, Hydref 20fed am 7.30 yng nghwmni Mrs Dilys Hughes, Trefnant.
- **CYFARFOD DIOLCHGARWCH CEFN MEIRIADOG** nos Iau, Hydref 22ain am 7.00 gyda'r Parch. Hywel Edwards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb. Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch Teuluol pnawn Sul, Hydref 25ain am 2.00 yng nghwmni'r Parch. John Derek Rees.
- **CYFARFOD DIOLCHGARWCH Y GROES** nos Wener, Hydref 23ain am 7.00 gyda'r Parch. Hugh Pritchard yn pregethu.
- **CYNHADLEDD UNDYDD DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD** yng Nghapel Bethel, Prestatyn dydd Iau, Tachwedd 12fed o 10.00 – 3.00.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Haggai 1: 1-6 (BCND tud.856 / BCN: tud.781)



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11^{eg} Hydref 2015

Darlleniad y Dydd

Rhufeiniaid 5:1-5

(BCND tud.168 / BCN: tud.154)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org


hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd! Mae tymor yr Hydref yn euro'r wlad a rhai wedi dechrau sôn am 'Dolig yn barod! Un o'r rheini oedd Cerian sy'n gynhyrchydd radio ac wrthi'n paratoi oedfaon yr Adfent. Cawsom wahoddiad ganddi i gyfrannu i'r gyfres trwy lunio gwasanaeth ar y thema "Mair a'r angel", sef hanes cyhoeddiad yr angel Gabriel i Mair y byddai'n beichiogi, ac y byddai'r 'Un Sanctaidd' a fyddai'n cael ei eni yn "Iesu", Gwaredwr y byd a Mab y Goruchaf. (Luc 1)

Ers cael yr alwad a derbyn y gwahoddiad, rwy'n cael fy hun yn troi at y thema yn aml ac yn dechrau ceisio edrych ar hanesion cyfarwydd y Testament Newydd trwy lygaid Mair ei hun. Rwyf wedi bod yn meddwl tybed sut ddaru Mair dderbyn y neges syfrdanol, a sut y gwnaeth hi blygu i dderbyn ac ufuddhau i'r alwad fawr yma ar ei bywyd. Meddwl hefyd, wrth ddarllen hanesion Iesu yn yr efengylau, sut oedd Mair yn ymateb i'w mab yn yr amrywiol sefyllfaoedd – y poblogrwydd a'r gwrthodiad, y cyhoeddus a'r dirgel. Ac wrth feddwl am ing Iesu wrth iddo gael ei ddyrchafu ar groes Golgotha ac yn gweld ei fam yno, tybed beth oedd maint ei gwewyr hi fel mam, a'i wewyr o fel mab yn yr eiliadau hynny? (Ioan 19:25)

Fe wireddwyd gair proffwydol y byddai Mair, er ei braint, yn profi gwewyr fel cleddyf yn trywanu ei chalon. (Luc 2:35) Ond a brofodd hithau yr iachâd a'r profiad hefyd o gael ei mab, Iesu, yn rhwymo'i briw ac yn rhoi iddi ei heddwch a'i dangnefedd ef ei hun? (Ioan 20:19) Ac wrth feddwl amdani yn ei gael yn ôl wedi ei atgyfodiad, tybed a ddiflannodd ei gofid yn gyfangwbl? Byddai'n braf cael eich barn a chael eich gwelediad chithau wrth i mi geisio llunio'r oedfa i Cerian. Mae profiadau Mair yn rhai unigryw, ond a oes ynddynt neges i ni heddiw ynglŷn ag ufudd-dod, gostyngeddwrwydd ffydd a gorfoledd wedi'r groes? Buaswn yn falch o dderbyn eich sylwadau a diolch i bawb sydd wedi rhannu eisoes.

Diolchwn i Dduw ei fod yn gallu ein hadfer i gyflwr gwell o hyd fel y gwelwn yn y darlleniad heddiw o'r bumed bennod o lythyr Paul at y Rhufeiniaid sy'n dweud am gyfiawnhad trwy ffydd yn Iesu, a'r heddwch sy'n dilyn hynny rhyngom ni a Duw trwy Iesu. Yn unol â'i air i Mair, mae Duw ar waith o hyd yn dyrchafu'r isel ac yn rhoi heddwch i'r rhai sydd yn galw arno. Gobeithio y cawn ni brofiad o'i Ysbryd yn gweithio ynom fel hyn wrth i ni ei addoli gyda'n gilydd fel y gwnaeth Mair gynt.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Aneurin

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 11^{eg}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Celfyn Williams yn pregethu.
- Mawrth – 13^{eg}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 15^{fed}
- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- Gwener – 16^{eg}
- **CIC +** (Cyfle ar gyfer pobl ifanc bl. 10+ i dyfu fel Cristnogion) yn Llansannan am 7.30.
- Sadwrn – 17^{eg}
- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala (lleoliad i'w gadarnhau) o 10.00 – 12.00.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 11^{eg}
- Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 13^{eg}
- Bydd cyfle am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma – 11^{eg}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi Diolchgarwch am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10. Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas y Beibl am 7.30.
- Mercher – 14^{eg}
- Cynhelir Oedfa Ddiolchgarwch Undebol yng Nghapel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Eric Jones yn pregethu. Bydd y casgliad yn mynd tuag at waith Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith am 10.00 pryd y bydd Alan a Nerys Morgan yn cyflwyno Caron Lewis i gael ei fedyddio.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma – 11^{eg}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.
- Llun – 12^{fed}
- Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod yn HWB, Dinbych am 7.30.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd i'r daith yn Nantglyn am 2.00 pryd y bydd Rhys a Helen Edmunds yn cyflwyno Gwilym Arthur i gael ei fedyddio.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 11^{eg}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
- Llun – 12^{fed}
- Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod yn HWB, Dinbych am 7.30.
- Sadwrn – 17^{eg}
- Cynhelir Ffair Hydref Capel Peniel yn Eirianfa, Dinbych o 10.00 - 11.30.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a'r Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 11^{eg}
- Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Llun – 12^{fed}
- Gwasanaethau Diolchgarwch Henllan. Bydd plant Ysgol Henllan yn cymryd rhan yng ngwasanaeth y prynhawn am 2.00 a Mrs Mair Beech Williams yn rhoi sgwrs i'r plant, ac yna yng nghyfarfod yr hwyr am 7.00, ceir pregeth gan y Parch. Dewi Tudur. Bydd Cymdeithas Chwiorydd Peniel, Groes a Nantglyn yn cyfarfod yn HWB, Dinbych am 7.30.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 11^{eg}
- Bydd Gwion a Sarah yn arwain oedfa deulu i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 16^{eg}
- Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Hydref 11eg**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 18^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi ar y thema Diolchgarwch yn Llanefydd am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a Chyfarfod Gweddi am 2.00.

Manylion Cyswilt

- Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com 📞 01745 870618 📞 07775 701102
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com 📞 07849 591163
- Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📞 07900 308461
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.